OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 1745 (Cy.184)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Athrawon Ysgol (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *6 Gorffennaf 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Medi 2004* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 214 o Ddeddf Addysg 2002(**1**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Athrawon Ysgol (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 1 Medi 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Diwygio Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Addysg Bellach (Cymru) 2002**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Addysg Bellach (Cymru) 2002(**2**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 hepgorer y diffiniad o "cymhwyster Rheoliadau 1999", a mewnosoder y diffiniad canlynol yn y lle priodol —

> "ystyr "cymhwyster athrawon ysgol" ("*school teachers' qualification*") yw cymhwyster sy'n rhoi i bersonau statws athrawon cymwysedig o fewn ystyr rheoliad 5 o Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004(**3**);".

(3) Yn rheoliad 3 yn lle is-baragraff (a) ym mhob un o baragraffau (2), (3) a (4) rhodder yr is-baragraff canlynol —

> "(a) cymhwyster athrawon ysgol;".

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) O.S. 2002/1663 (Cy.158), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/1717 (Cy.184).
(**3**) O.S. 2004/1729 (Cy.173).

**Diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Ffioedd) 2002**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Ffioedd) 2002(**4**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3 yn lle'r geiriau "y mae'n ofynnol" i'r diwedd rhodder y geiriau "y mae'n ofynnol iddynt gael eu cofrestru yn rhinwedd rheoliadau a wnaed o dan adran 134(1) o Ddeddf Addysg 2002(**5**)".

(3) Yn rheoliad 4(4) yn lle paragraff (b) rhodder y canlynol —

"(b) ei bod yn ofynnol iddynt gael eu cofrestru felly yn rhinwedd rheoliadau a wnaed o dan adran 134(1) o Ddeddf Addysg 2002,".

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2003**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2003(**6**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) —

(a) yn lle'r diffiniad o "athro neu athrawes gofrestredig" rhodder y diffiniad canlynol —

"ystyr "athro neu athrawes gofrestredig" ("*registered teacher*") yw person y rhoddwyd iddo awdurdodiad i addysgu yn unol â pharagraffau 12 i 18 o Atodlen 2 i Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon a Safonau Iechyd) (Cymru) 1999(**7**)) cyn 1 Medi 2004;";

(b) yn lle'r diffiniad o "athro neu athrawes gymwys" rhodder y diffiniad canlynol —

"ystyr "athro neu athrawes gymwysedig" ("*qualified teacher*") yw person sy'n bodloni gofynion a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 132 o Ddeddf 2002(**8**);"

(c) yn lle'r diffiniad o "athro neu athrawes raddedig" rhodder y diffiniad canlynol —

"ystyr "athro neu athrawes raddedig" ("*graduate teacher*") yw person y rhoddwyd iddo awdurdodiad i addysgu yn unol â pharagraffau 5 i 11 o Atodlen 2 i Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon a Safonau Iechyd) (Cymru) 1999(**9**) cyn 1 Medi 2004;"; ac

(ch) mewnosoder ar ôl y diffiniad o "y Cyngor" y diffiniad canlynol —

"ystyr "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth" ("*employment-based teacher training scheme*") yw cynllun a sefydlwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan reoliad 8 o Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004(**10**);".

(3) Yn rheoliad 6(2)(a)(i), mewnosoder ar ôl y geiriau "athro neu athrawes gofrestredig" y geiriau "neu ar gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth".

(4) Yn y fersiwn Gymraeg o reoliad 8(1) a (2), rhodder y geiriau "athro neu athrawes gymwysedig" yn lle'r geiriau "athro neu athrawes gymwys".

(5) Yn Atodlen 1 —

(**4**) O.S. 2002/326 (Cy.39).
(**5**) *Gweler* Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004, O.S. 2004/1744 (Cy.183).
(**6**) O.S. 2003/543 (Cy.77) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2004/872 (Cy.87).
(**7**) O.S. 1999/2817 a ddiwygiwyd gan O.S. 2002/1663 (Cy.158), 2002/2938 (Cy.279), 2003/140 (Cy.12) a 2003/2458 (Cy.240), ac a ddirymwyd, yn rhannol gan O.S. 2004/1729 (Cy.173) ac O.S. 2004/1744 (Cy.183).
(**8**) Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004, O.S. 2004/1729 (Cy.173), oedd y rheoliadau a oedd mewn grym pan wnaed y rheoliadau hyn.
(**9**) O.S. 1999/2817 (Cy.18) a ddiwygiwyd gan O.S. 2002/1663 (Cy.158), 2002/2938 (Cy.279), 2003/140 (Cy.12) a 2003/2458 (Cy.240), ac a ddirymwyd, yn rhannol, gan O.S.2004/1729 (Cy.173) ac O.S. 2004/1744 (Cy.183).
(**10**) O.S. 2004/1729 (Cy.173).

(a) yn lle paragraff 17 rhodder y paragraff canlynol —

"**17.** Person sy'n athro neu athrawes gymwysedig yn rhinwedd rheoliad 5 o Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004, a pharagraff 12 o Atodlen 2 iddynt.";

(b) yn lle paragraff 18 rhodder y paragraff canlynol —

"**18.** Person sy'n athro neu athrawes gymwysedig yn rhinwedd rheoliad 5 o Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004, a pharagraff 13 o Atodlen 2 iddynt.";

(c) ym mharagraff 20 rhodder yn lle is-baragraff (c) y canlynol —

"(c) sy'n athro neu athrawes gymwysedig yn rhinwedd rheoliad 5 o Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004, a pharagraff 10 o Atodlen 2 iddynt; a".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**11**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

6 Gorffennaf 2004

(**11**) 1998 p.38.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Addysg Bellach (Cymru) 2002, Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Ffioedd) 2002 a Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2003. Mae'r diwygiadau hyn yn cymryd i ystyriaeth y newidiadau a wnaed gan adrannau 132, 133 a 134 o Ddeddf Addysg 2002 i gymwysterau athrawon, i'r gwaith y caniateir ei wneud mewn ysgolion gan athrawon ac eraill ac i'r gofyniad i gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.